



Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl  
Residential Property Tribunal

## Cais gan berchennog safle Cartrefi Symudol am orchymyn gwrthod yn atal y meddiannydd rhag rhoi'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, i aelod o deulu'r meddiannydd.

Atodlen 2, Pennod 2, paragraffau 13(3) a (4) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

### Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.

Dyma'r ffurflen i'w defnyddio os ydy'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Rydych chi'n berchennog safle cartrefi symudol sy'n safle gwarchoddedig;
- Mae meddiannydd cartref symudol ar y safle wedi cyflwyno i chi hysbysiad o fwriad i roi'r cartref symudol yn anrheg o dan baragraff 13(1) o Atodlen 2 Pennod 2 o'r Ddeddf;
- Rydych am i'r tribiwnlys roi gorchymyn gwrthod yn atal y meddiannydd rhag rhoi'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb i'r meddiannydd arfaethedig.

### GWYBODAETH BWYSIG AM DERFYNAU AMSER

- Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gael eich cais o fewn y cyfnod o **21 diwrnod** sy'n dechrau ar y dyddiad y cawsoch yr hysbysiad o'r bwriad i roi'r cartref symudol yn anrheg (paragraff 13(3)(a)(i) o Atodlen 2 Pennod 2)
- O fewn y cyfnod hwnnw o **21 diwrnod**, mae'n rhaid i chi roi hysbysiad i'r meddiannydd yn dweud eich bod wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys am orchymyn gwrthod. (Paragraff 13(3)(a)(ii) o Atodlen 2 Pennod 2). Bydd methu â gwneud hyn yn golygu y bydd eich cais yn cael ei drin fel un sydd heb gael ei wneud. (Paragraff 13(4) (a) o Atodlen 2 Pennod 2).

### Nodyn i Geiswyr

Cynghorir Ceiswyr ei bod yn bosib y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i'r Tribiwnlys yn cael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd.

### Dogfennau

Mae'n rhaid i chi anfon y ddogfen/dogfennau canlynol ("dogfen/dogfennau angenrheidiol") gyda'r cais hwn:

- Copi o'r cytundeb rhwng perchennog y Cartref Symudol a pherchennog y safle.
- Copi o'r hysbysiad o'r bwriad i roi'r cartref symudol yn anrheg y mae'r meddiannydd wedi'i gyflwyno i chi.
- Copi o'r hysbysiad rydych chi wedi'i anfon i'r meddiannydd yn dweud wrtho eich bod wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys am orchymyn gwrthod
- Copi o unrhyw ohebiaeth berthnasol rydych chi wedi'i rhoi neu ei chael mewn cysylltiad â'r mater rydych am gael penderfyniad arno.

Os byddwch yn methu anfon y ddogfen/dogfennau angenrheidiol, gallai olygu na fydd eich cais yn ddilys.

Mae ffi'n daladwy am y cais hwn. Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Pan ac os bydd angen rhagor o wybodaeth, tystiolaeth neu ddogfennau arnom, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

### Ffi Gwneud Cais

Oni bai bod gennych hawl i ostyngiad neu hepgoriad, mae'n rhaid i chi anfon y Ffi Gwneud Cais gyda'r cais a'r dogfennau angenrheidiol. Bydd cost y ffi gwneud cais yn dibynnu ar faint o leiniau neu Gartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais.

<b>Nifer y lleiniau neu'r Cartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais</b>	<b>Ffi Gwneud Cais</b>
Os yw'r cais yn ymwneud ag un llain neu Gartref Symudol	£155
Os yw'r cais yn ymwneud â dwy lain neu ddau Gartref Symudol	£205
Os yw'r cais yn ymwneud â thair neu bedair llain neu dri neu bedwar Cartref Symudol	£410
Os yw'r cais yn ymwneud â phump neu fwy o leiniau neu Gartrefi Symudol	£515

Fydd Rhaid talu'r ffi naill ai gyda sic wedi'i chroesi neu archeb bost wedi'i dynnu o blaid "Llywodraeth Cymru" neu drwy drosglwyddiad banc, y gellir darparu manylion amdani ar gais. Peidiwch ag anfon arian parod o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fyddwn yn derbyn taliadau mewn arian parod.

#### **Cofiwch:**

Os nad ydych yn anfon y ffi gywir sy'n daladwy i "Llywodraeth Cymru" neu os byddwch yn anfon arian parod, byddwn yn anfon y cais a'r arian parod yn ôl atoch ar eich cyfrifoldeb eich hun.

#### **Hepgor Ffioedd**

Os yw'r Ceisydd/Ceiswyr neu bartner/bartneriaid y Ceisydd/Ceiswyr yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n seiliedig ar incwm, gellir gostwng neu hepgor y Ffi Gwneud Cais.

I hawlio gostyngiad ar y Ffi Gwneud Cais neu am hepgor y ffi, mae'n rhaid i'r Ceisydd/Ceiswyr sy'n cael budd-dal o'r fath neu'r Ceisydd/Ceiswyr sydd â phartner/partneriaid sy'n cael budd-dal o'r fath, lenwi ffurflen cais am hepgoriad ffioedd. Mae hon ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o hon.

#### **Dewis iaith**

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau uchod yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon. Ysgrifennwch yn glir gan ddefnyddio inc DU, os gwelwch yn dda.

### 1. MANYLION Y SAFLE

Cyfeiriad y Safle:	
--------------------	--

### 2. MANYLION Y PERCHENNOG SAFLE SY'N GWNEUD Y CAIS

Enw:	
Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post):	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol):	

Rhif ffôn:

*Yn ystod y dydd:*

*Gyda'r nos:*

*Symudol:*      :

Cyfeiriad e-bost:

Enw, cyfeiriad a manylion yr asiant/cynrychiolydd (os yn berthnasol)

*Lle rhoddir manylion asiant/cynrychiolydd, gyda'r asiant/cynrychiolydd hwnnw y bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu ac yn gohebu bob amser hyd nes y caiff ei hysbysu nad yw bellach yn gweithredu ar ran y ceisydd/ceiswyr.*

### 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawriad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

#### 4. MANYLION Y MEDDIANNYDD SY'N YMATEB

Enw:	
Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cytundeb i feddiannu yn berthnasol iddo ( <i>gan gynnwys y cod post</i> ):	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol):	

Rhif ffôn:

<i>Yn ystod y dydd:</i>
<i>Gyda'r nos:</i>
<i>Symudol:</i> :
Cyfeiriad e-bost:

#### 5. MANYLION Y CYTUNDEB A HYSBYSIAD Y MEDDIANNYDD O'R BWRIAD I ROI'R CARTREF SYMUDON YN ANRHEG AC ASEINIO'R CYTUNDEB.

Dyddiad y cytundeb: \_\_\_\_\_

Partïon yn y cytundeb

--

Dyddiad derbyn hysbysiad y meddiannydd o'r bwriad i roi'r cartref symudol yn anrheg ac aseinio'r cytundeb \_\_\_\_\_

A wnewch chi gynnwys y canlynol os gwelwch yn dda:

Copi o'r cytundeb

Copi o hysbysiad y meddiannydd ynghyd â'r holl ddogfennau rhagnodedig eraill a'r wybodaeth a gafwyd gan y meddiannydd

Copi o unrhyw ohebiaeth rydych chi wedi'i hanfon neu ei chael mewn cysylltiad â chynnwys y cais hwn

## 6. SAIL Y CAIS

Y sail y gellir gwneud cais am orchymyn gwrthod arni yw, pe bai'r meddiannydd arfaethedig yn dod yn feddiannydd, byddai'r person hwnnw, neu berson sy'n bwriadu byw gyda'r meddiannydd arfaethedig, yn torri rheol cyn-cychwyn neu reol safle am un o'r rhesymau isod: (Ticiwch y blychau priodol i ddangos ar ba resymau rydych chi'n dibynnu).

Oherwydd oed

Oherwydd ei fod yn cadw anifail sy'n cyfateb i ddisgrifiad sydd wedi'i nodi yn y rheol;

Oherwydd ei fod yn parcio cerbydau ar y safle sy'n cyfateb i ddisgrifiad sydd wedi'i nodi yn y rheol;

Oherwydd ei fod yn parcio mwy o gerbydau ar y safle na'r nifer sydd wedi'i bennu yn y rheol.

Oherwydd bod y meddiannydd arfaethedig wedi methu darparu'r canlynol i'r perchennog: (i) y dystiolaeth ragnodedig berthnasol fod y meddiannydd arfaethedig yn aelod o deulu'r meddiannydd neu (ii) unrhyw dystiolaeth foddhaol arall fod y person dan sylw yn aelod o deulu'r meddiannydd.

Y dystiolaeth sydd wedi'r rhagnodi at ddibenion yr uchod yw'r canlynol:

- Gwybodaeth ysgrifenedig ar lw a roddwyd gan y meddiannydd a'r meddiannydd arfaethedig sy'n esbonio'r berthynas rhyngddynt;
- Tystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu;
- Tystysgrif priodas neu dystysgrif partneriaeth sifil.

(Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014, rheoliad 6).

### Nodyn:

- 'Rheol Safle' yw rheol a wneir gan y perchennog yn unol ag unrhyw weithdrefnau y gellid eu rhagnodi sy'n ymwneud ag (i) rheoli'r safle neu (ii) materion eraill y gellid eu rhagnodi.
- Ystyr rheol cyn-cychwyn yng nghyswllt safle yw rheol y mae'r perchennog wedi'i gwneud cyn 1<sup>af</sup> Hydref 2014 sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r materion yn (i) neu (ii) uchod.

A wnewch chi gynnwys copi o'r rheol/rheolau rydych chi'n dibynnu arni/arnynt a nodi'r dyddiad y gwnaed y rheol/rheolau.

## 7. HYSBYSIAD I'R MEDDIANNYDD O GAIS I'R TRIBIWNLYS

Ydych chi wedi hysbysu'r meddiannydd o'ch cais i'r Tribiwnlys? Ydw  Nac ydw

Os ydych, a wnewch chi gynnwys copi o'ch hysbysiad a nodi'r dyddiad yr oeddech chi wedi rhoi'r hysbysiad hwnnw i'r meddiannydd gan gynnwys tystiolaeth o'r modd yr oeddech wedi'i roi iddo.

## 8. ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl delio â'ch cais yn gyfan gwbl ar sail sylwadau ysgrifenedig ("penderfyniad ar bapur")  
OND DIM OND:

Os bydd y tribiwnlys yn meddwl fod hynny'n briodol ac  
Os nad yw unrhyw barti yn gofyn am wrandawriad.

Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno i benderfyniad ar bapur

Efallai y bydd y Tribiwnlys, serch hynny, yn penderfynu bod gwrandawriad llafar yn  
angenrheidiol.

Gallwch chi neu unrhyw barti arall ofyn am wrandawriad llafar o hyd ar unrhyw bryd cyn y bydd y  
penderfyniad yn cael ei wneud.

Ydych chi'n cytuno i'r cais hwn gael ei benderfynu heb wrandawriad llafar? Ydw  Nac ydw

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon, gan dybio y bydd gwrandawriad llafar yn cael ei gynnal.**

## 9. ARGAELEDD

A wnewch chi roi gwybod i ni isod os oes unrhyw ddyddiadau neu ddyddiau yn y tri mis nesaf y bydd  
yn rhaid i ni eu hosgoi (naill ai oherwydd nad ydynt yn hwylus i chi neu oherwydd nad ydynt yn  
hwylus i unrhyw dyst neu arbenigwr y byddech yn dymuno ei alw).

Dyddiadau pan NAD ydych ar gael:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

## 10. GOFYNION O RAN Y LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu unrhyw un a fydd yn dod gyda chi  
(e.e. mynediad i gadair olwyn, presenoldeb cyfieithydd). Bydd gwybod beth yw eich anghenion o  
gymorth i'r Tribiwnlys wrth iddo wneud trefniadau.

## 11. DATGANIAD GWIRIONEDD

*Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn yn wir.*

Llofnod:

Enw (mewn  
llythrennau bras)

Swydd (os yn briodol) (ee  
Cyfarwyddwr, Cyfreithiwr):

Dyddiad:

## **RHESTR WIRIO**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau'r ffurflen YN LLAWN.
- Cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.
- Cynnwys y ffi briodol.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os nad ydych wedi gwneud hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r weithdrefn y bydd y Tribiwnlys yn ei defnyddio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar 0300 025 2777 neu anfonwch e-bost at [rpt@llyw.cymru](mailto:rpt@llyw.cymru)

**Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at [rpt@llyw.cymru](mailto:rpt@llyw.cymru) neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.**

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon gyda'r ffi a'r dogfennau angenrheidiol i'r cyfeiriad isod:

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl**

**Oak House**

**Cleppa Park**

**Celtic Springs**

**Casnewydd**

**NP10 8BD**